**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Grŵp Cynghori AoHNE Gŵyr

**Cyfarfod Aml-leoliad – Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas/MS Teams**

**Nos Fercher, 15 Chwefror 2023 am 6.15pm**

**Yn Bresennol:** Y Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) fu'n llywyddu

**Y Cynghorwyr**

P R Hood-Williams
L James

**Aelodau sy'n rhanddeiliad**

Howard Evans
Carrie Townsend Jones
Peter Lanfear
Hamish Osborn
Barbara Parry
Clive Scott
Anthony Thomas
Paul Tucker

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Judith Doyle | Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg Gwent |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Paul Meller | Natural Environment Section Manager |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Mike Scott | Gower AONB Officer |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): S E Keeton, N L Matthews a/ac A H Stevens
Aelodau o'r Grŵp Llywio(wyr): Stephen Heard, Alan Kearsley-Evans a/ac Philip Ogleby

---

**5 Ethol cadeirydd ar gyfer gweddill Blwyddyn Ddinesig 2022 - 2023.**

**Penderfynwyd** ethol Barbara Parry yn Is-gadeirydd ar gyfer y Grŵp Cynghori am weddill blwyddyn ddinesig 2022-2023.

**6 Datganiadau o fuddiannau.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**7 Cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod(ydd) blaenorol fel cofnod cywir.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Grwp Cynghori AoHNE Gŵyr a gynhaliwyd ar 31 Ionawr 2023 fel cofnod cywir.

**8 Cylch Gorchwyl.**

Cyflwynwyd Cylch Gorchwyl Grŵp Cynghori AoHNE Gŵyr 'er gwybodaeth'.

**9 Cronfa Datblygu Cynaliadwy - Penodi Paneli.**

Cyflwynodd Mike Scott, Swyddog AoHNE Gŵyr adroddiad a oedd yn gofyn am benodi aelodaeth i Banel y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (CDC) a'r Panel Apeliadau.

Eglurwyd bod Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid blynyddol ar gyfer cynllun grant y CDC (£100,000 y flwyddyn ar hyn o bryd). Rheolir y cynllun yn lleol gan Dîm AoHNE Gŵyr, gyda phanel grantiau a phanel apeliadau i ystyried a chymeradwyo ceisiadau grant.

Mae'r Panel CDC a Phanel Apeliadau'r CDC yn cael eu penodi gan Grŵp Cynghori AoHNE Gŵyr, y mae gan bob un 8 aelod, fel y nodir yn y ddogfen Cylch Gorchwyl.

Nodwyd sylwadau Carrie Townsend Jones mewn perthynas ag aelodaeth Panel y Gronfa Datblygu Cynaliadwy. Eglurwyd bod Cynghorwyr yn cael eu penodi yng Nghyfarfod Blynyddol y cyngor a bod yn rhaid i'r cyngor gytuno ar unrhyw newidiadau i'w haelodaeth.

**Penderfynwyd:** -

1) ethol y canlynol fel aelodau'r Panel Cronfa Datblygu Cynaliadwy: -

- Y Cynghorydd Paul Lloyd (Cadeirydd)
- Y Cynghorydd Andrew Stevens
- Y Cynghorydd Lynda James
- Y Cynghorydd Sara Keeton
- David Cole
- John France
- Cari Jones
- Francis Morgan

2) ethol y canlynol fel aelodau Panel Apeliadau'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy: -

- Barbara Parry (Cadeirydd)
- Y Cynghorydd David Hopkins
- Y Cynghorydd Paxton Hood-Williams
- Hamish Osborn
- Peter Lanfear
- Clive Scott
- Anthony Thomas
- Judith Doyle

## 10 Crynodeb Ariannol y Gronfa Datblygu Cynaliadwy.

Cyflwynodd Mike Scott, Swyddog AoHNE Gŵyr, adroddiad ariannol cryno Panel y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (CDC) 'er gwybodaeth'.

Amlinellwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau cyllideb CDC ar gyfer 2022/23 sef £100,000.

Hyd yma, mae 11 o brosiectau wedi'u cefnogi, gyda £54,378 wedi'i neilltuo. Roedd 8 cais arall ar waith, yn gofyn am £45,622.

Pe bai'r rhain yn cael eu cymeradwyo, byddai hyn yn neilltuo'r cyllid yn llawn ar gyfer 2022/23.

Ychwanegwyd bod ffigwr y cronfeydd neilltuedig yn cynnwys Ffi Rheoli DASA o £10,000.

| | |
|---|---:|
| Cyfanswm yr arian sydd ar gael | £100,000 |
| Cronfeydd Neilltuedig | £54,378 |
| Cronfeydd heb eu Neilltuo | £45,622 |
| Ceisiadau ar waith | £45,622 |

Byddai adroddiad manwl yn cael ei lunio ar ôl mis Ebrill a'i ddosbarthu i aelodau'r Grŵp Cynghori, gan dynnu sylw at y gwaith a wnaed gan y prosiectau a gefnogwyd.

Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru fod gan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy gyllideb o £100,000 ar gyfer 2023/24

Penodwyd Panel Grantiau CDC newydd a byddai'n cyfarfod ar 27 Chwefror 2023.

## 11 Diweddariad ar Raglen Waith AHNE Gwyr.

Cyflwynodd Paul Meller, Rheolwr yr Amgylchedd Naturiol adroddiad a oedd yn crynhoi gwaith tîm AoHNE Gŵyr ers cyfarfod diwethaf y Grŵp Llywio ym mis Mawrth 2022.

Ychwanegwyd y byddai adroddiadau diweddaru manylach yn dilyn maes o law wrth i waith prosiect fynd rhagddo. Rhagwelwyd y byddai is-grwpiau y Grŵp Cynghori yn cael eu sefydlu i weithio gyda Thîm AoHNE Gŵyr i helpu i ddatblygu'r rhain a phrosiectau eraill/Camau Gweithredu Cynllun Rheoli AoHNE fel y bo'n briodol.

Roedd yr adroddiad yn darparu manylion ynghylch y meysydd canlynol: -

- Cylch Gorchwyl newydd ar gyfer y Grŵp Cynghori AoHNE.
- Cynllun Rheoli AoHNE Gŵyr.
- Mapio Asesiad Sylfaen Cadernid Ecosystemau Lleol ar gyfer Abertawe.
- Asesiad Sylfaen ar Garbon ym Mhenrhyn Gŵyr (gweithio tuag at gyflawni Sero Net)
- Awyr Dywyll Gŵyr
- Seminar Tirweddau Cymru yn Down to Earth, Cilybion, Gŵyr 9/10 Mawrth 2023.

- Parc Gwledig Dyffryn Clun
- Datblygiad glannau Porth Einon
- Twyni Tywod Porth Einon - Asesiad Geomorffaidd a Rheoli Opsiynau Arfarnu
- Gwaith Archaeoleg a Henebion cofrestredig (amrywiol).
- Gwaith prosiect arall sy'n parhau – Mannau Addoli Gŵyr / Comin Fairwood / Cefn Bryn / Prosiect Waliau Sych Gŵyr.
- Diweddariad am gyllid grant.

Ychwanegodd Mike Scott, Swyddog AoHNE Gŵyr y byddai'r Grŵp Cynghori yn cael diweddariadau rheolaidd rhwng cyfarfodydd.

Gofynnodd y Grŵp Llywio i gyfarfodydd y dyfodol gychwyn am 6.30pm.

**Penderfynwyd** y dylid nodi cynnwys yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 7.02 pm

**Cadairydd**